# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(Via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 13 Medi 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Galsworthy** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, J.Miller, S.Paddison, S.H.Reynolds, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths a/ac N.J.E.Davies |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Thomas, J.Hodges, R Davies a/ac C.John |

---

## 1. CROESO A GALW'R RHESTR

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd fod un eitem yn unig ar yr agenda ac y byddant yn craffu arno.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Y Cyng. J Miller - Eitem 3a - Mae aelodau o'i deulu'n rhentu gan Tai Tarian.

Y Cyng. C Edwards - Eitem 3a – Mae'n bosib bod aelod o'i theulu'n byw mewn llety sy'n cael ei rentu gan Tai Tarian.

## 4. POLISI GOSODIADAU TAI A RENNIR YMGYNGHOROL DRAFFT CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT A TAI TARIAN 2021

Gwnaeth yr aelodau sylw am y fersiwn hawdd ei darllen o'r ddogfen a ddarparwyd. Heblaw am fod ychydig yn fyrrach, nododd yr aelodau ei bod yn dal i gynnwys manylion ac iaith gymhleth y byddai llawer o bobl yn cael trafferth eu deall. Nodwyd ei bod yn ddogfen gyfreithiol a

byddai angen iddi gynnwys iaith benodedig. Dywedodd swyddogion Tai Tarian unwaith y byddai'r ddogfen gyfreithiol yn cael ei chymeradwyo byddant yn ystyried ymgysylltu â grŵp o denantiaid ac ymgeiswyr i benderfynu a allent greu rhywbeth i gyd-fynd â'r ddogfen.

Darparodd swyddogion Tai Tarian gyflwyniad i aelodau.

Yn dilyn trosglwyddo'r stoc tai yn 2011, roedd CNPT wedi cadw’i rôl fel yr Awdurdod Tai Strategol Lleol O fewn y rôl honno, mae gan y cyngor y cyfrifoldeb cyfreithiol i drefnu, mabwysiadu a diwygio cynllun dyrannu a lle bo'n briodol, ymgynghori ar newidiadau arfaethedig iddo.

O dan gytundeb trosglwyddo 2010, cytunwyd ar Bolisi Gosodiadau Tai a Rennir rhwng y cyngor a Tai Tarian ac mae'r ddau bellach yn rhannu cyfrifoldeb parhaus am newidiadau i'r Polisi Gosodiadau Tai a Rennir gan gynnwys ei adolygiad cyfnodol.

Roedd y ddogfen yr oedd aelodau'n ei hystyried yn destun ymgynghoriad 90 o ddiwrnodau ar y pryd. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 2015 a dechreuodd y broses adolygu bresennol yn 2017. Gwnaed ymdrech sylweddol i sicrhau bod y ddogfen ddrafft yn cynnwys eitemau perthnasol yn unig. Gohiriwyd y prosiect er mwyn ymateb i'r pandemig.

Mae Tai Tarian yn bartner gweithredol gyda'r cyngor o ran lliniaru ac atal digartrefedd. Roedd llawer o'r gwaith yn ystod y pandemig yn canolbwyntio ar ymateb i ddigartrefedd. Mae Tai Tarian yn bartner gweithredol gyda'r cyngor ac mae ganddo nifer o gytundebau amrywiol ar waith ar lefel weithredol a strategol i gynorthwyo gydag ymateb i ddigartrefedd a'i atal.

O ran yr Asesiad Effaith Integredig (AEI), nid oes gan y drafft unrhyw effeithiau negyddol ar aelwydydd ymgeiswyr sy'n hysbys ar hyn o bryd neu rai disgwyliedig yn rhinwedd nodweddion gwarchodedig unrhyw aelod o'r aelwyd. Caiff drafft ymgynghorol yr AEI ei ddiweddaru i adlewyrchu profi a chanfyddiadau pellach ac unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynir.

Cynhaliwyd profion effaith i benderfynu a oedd y newidiadau wedi cael effaith negyddol ar ymgeiswyr a thenantiaid presennol. Ystyriwyd pob ffactor arweiniol yn ei dro. Mae'r ffactor arweiniol yn penderfynu pa fand fydd yr ymgeisydd ynddo. Roedd y profi'n edrych ar

ymgeiswyr presennol ac yn penderfynu a oedd newidiadau materol i'w cais.

Roedd y Timau Opsiynau Tai hefyd yn edrych ar eu hachosion presennol ac yn penderfynu a fyddai unrhyw effaith o'r drafft newydd. Aeth y swyddog trwy ganlyniadau'r profion. O’r 75 a brofwyd, roedd 73 heb newidiadau. Roedd gan y 2 sy'n weddill newidiadau cadarnhaol. Arddangosodd y profi cyffredinol na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ond mewn rhai achosion byddant yn cael effaith gadarnhaol.

Gofynnodd aelodau beth oedd y gwahaniaeth rhwng contract meddiannaeth safonol a chontract meddiannaeth diogel. Mae Tai Tarian yn gweithredu ar sail dwy denantiaeth ar hyn o bryd. Y gyntaf yw'r cytundeb tenantiaeth byrddaliad. Mae'r ail yn cynnwys hawliau tenantiaeth llawn sicr a thenantiaethau gwarchodedig sicr Mae dau gontract o dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi. Cyfeirir at y contractau hyn yn yr adroddiad.  Bydd y contract safonol yn cymryd lle'r denantiaeth byrddaliad sicr. Bydd y contract sicr yn cymryd lle'r cytundebau hawliau tenantiaeth llawn sicr a thenantiaethau gwarchodedig sicr

Gofynnodd aelodau ynghylch cynllunio olyniaeth. Os bydd cais am olynu tenantiaeth, ac mae'r hawl honno eisoes wedi'i defnyddio hyd at y nifer uchaf a ganiateir, os oes angen i'r person sy'n gwneud y cais fyw yn yr ardal, a fydd Tai Tarian yn ystyried y cais am olynu?

Mae tair lefel o ran olyniaeth. Yn gyntaf, hawl awtomatig er enghraifft, priod. Mae'r ail hawl yn ystyried aelodau o'r teulu. Mae'r drydedd hawl mewn perthynas ag aelod o'r teulu a fydd wedi byw yn yr eiddo am lai na 12 mis. Caiff amgylchiadau unigol a galw eu hystyried bob amser wrth edrych ar hawliau olyniaeth, oni bai fod yr hawl yn awtomatig.

Gofynnodd aelod a oedd polisi gosodiadau ar wahân. Cadarnhawyd nad oedd polisi gosodiadau lleol ar hyn o bryd. Fel arfer mae hyn ar waith pan fo’i angen yn unig ac fel arfer byddai terfyn amser yn gysylltiedig ag ef.

Gofynnodd aelodau ynghylch yr amserlen ar gyfer adolygiadau brys. Cadarnhawyd na fyddai rhai pobl mewn band brys yn gallu gwneud cais yn ôl yr angen. Mae'r adolygiad tri mis yn caniatáu i'r cwmni adolygu'r brys a phenderfynu a ydynt yn gwneud cais yn ôl yr angen. Mae'n caniatáu i Tai Tarian benderfynu a yw'r brys yn dal i fod ac nad ydynt wedi cael cartref drwy ffordd arall.

Cytunodd swyddogion i ystyried a oedd ffordd o benderfynu a ellid symleiddio ffurflenni a rhannu gwybodaeth rhwng Tai Tarian yn fwy effeithlon.

Roedd llawer o brosesau'n cynnwys mynediad digidol. Os nad yw rhywun yn gallu cyrchu rhaglenni digidol bydd Tai Tarian yn derbyn ceisiadau trwy ddulliau eraill. Mae tîm yn ei le i gefnogi rhaglenni nad ydynt yn ddigidol. Gofynnodd aelodau a oedd hyn yn glir o fewn y ddogfen bolisi. Cytunodd Tai Tarian i roi rhywbeth ar waith.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai unrhyw ymweliadau ag ymgeisydd yn cael eu trefnu ymlaen llaw gyda'r ymgeisydd.

Gofynnodd aelodau sut yr asesir a yw ymgeisydd yn gallu 'cynnal' eiddo. Cadarnhaodd swyddogion y  byddai rhywun yn ymweld â'r eiddo ac efallai y cysylltir ag asiantaethau eraill i weld a oedd gwybodaeth ar gael am yr ymgeisydd. Mewn rhai amgylchiadau gellir gohirio cais i ganiatáu ymchwiliad pellach.

O ran ymgeiswyr dan 16 oed, a fyddai Tai Tarian yn gwneud gwiriadau cefndir gyda gwasanaethau plant a gwiriadau eraill yn ôl yr angen.  Roedd gan yr aelodau bryderon penodol ynghylch natur ddiamddiffyn ymgeisydd. Dywedodd Tai Tarian y byddai'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu gwneud. Mae cynllun penodol hefyd wedi'i sefydlu i gefnogi pobl ifanc i wneud cais am lety.

Gofynnodd aelodau ynghylch asesiadau ariannol. Gan mai Cyngor CNPT sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am ddyfarnu a gweinyddu budd-daliadau, a fydd Tai Tarian yn cynnal asesiadau mewn ymgynghoriad llawn ag adran budd-daliadau CNPT? Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei wneud. Mae trefniant gweithio mewn partneriaeth ar waith. Ar ben hynny, esboniodd swyddogion y byddai symud tŷ weithiau'n sbarduno hawliad i elfen tai credyd cynhwysol. Mae perthnasoedd gwaith hefyd wedi'u meithrin gyda'r Ganolfan Waith a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr yr un gefnogaeth a phrofiad.

Gofynnodd aelodau am y Polisi Cyn-filwyr ac a yw ymgeiswyr  yn gorfod cael cysylltiadau blaenorol â'r ardal cyn ymuno â'r gwasanaeth? Cadarnhawyd os ydynt wedi sefydlu cysylltiad lleol â'r ardal yna byddai cysylltiad wedi'i sefydlu. Er enghraifft, os oeddent yn byw yn yr ardal pan adawsant y lluoedd.

Os bydd rhywun yn gwneud cais o'r lluoedd arfog, gall wneud cais trwy'r llwybr Opsiynau Tai a bydd yn cael mynediad at y bandiau uwch. Gofynnodd aelodau pe bai gan briod y cyn-filwr gysylltiad â'r ardal, a fyddai hynny'n cael ei ystyried yn gysylltiad cryf? Cadarnhaodd swyddogion y byddai hynny'n ddigon fel cysylltiad â'r ardal.

O ran fforddadwyedd ar gyfer yr ymgeisydd, mae dwy elfen i daliadau gwasanaeth. Ystyrir cost y taliad gwasanaeth. Hefyd, mae taliadau gwasanaeth yn cael eu hadolygu ar draws Cymru ar hyn o bryd, oherwydd cydnabyddir weithiau y gall y taliadau hyn effeithio ar fforddadwyedd.

Os bydd gwrthodiad afresymol, pa fecanwaith yn y polisi sy'n caniatáu ar gyfer heriau i wrthodiad afresymol? Sut yr ymdrinnir ag achos lle mae'r ymgeisydd yn ystyried y gwrthodiad yn un rhesymol? Cadarnhawyd bod gan unrhyw un hawl i adolygu unrhyw benderfyniad. Byddai hyn yn cael ei ystyried gan uwch-swyddog. Yn gyffredinol, nifer bach o letyau'n unig sy'n cael eu gwrthod gyda llai yn cael eu gwrthod fel rhai afresymol.

Gellir cynnal adolygiad llafar. Gall yr ymgeisydd ddod ag eiriolwr. Gellir hefyd gynnal adolygiad ysgrifenedig. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn ceisio darparu ar gyfer amgylchiadau unigol ymgeisydd. Mae'r polisi'n cadarnhau bod gan ymgeisydd hawl i eiriolwr yn ystod y broses a gall yr ymgeisydd ddewis sut caiff yr adolygiad ei gynnal.

Gofynnwyd i swyddogion am eiddo wedi'u haddasu. Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw beth ar waith i gadw stoc wedi'i haddasu i sicrhau ei bod ar gael pan fo angen. Cadarnhaodd swyddogion lle bynnag y bo modd, y caiff llety wedi'i addasu ei glustnodi i rywun sydd mewn angen. Mae lefel yr addasiadau'n amrywio'n sylweddol rhwng eiddo. Eir ati bob amser i sicrhau bod ymgeisydd yn cael eiddo sy'n addas ar ei gyfer. Weithiau caiff eiddo sydd wedi'i addasu'n rhannol ei hysbysebu trwy'r cynllun 'Homes by Choice' a hysbysebir y bydd ymgeiswyr anabl yn cael eu hystyried yn gyntaf. Gall cyfarpar gael ei ailddefnyddio a'i ailddosbarthu os oes angen.

Gofynnodd aelodau beth fyddai'n sbarduno adolygiad o ran asesiad o angen ar gyfer ymgeisydd lle na chyflwynwyd unrhyw wybodaeth newydd.  Cadarnhaodd swyddogion fod gwybodaeth weithiau'n cael ei hystyried yn anghywir, er enghraifft mae ymgeisydd yn dweud bod y lle'n orlawn ond nid ydyw mewn gwirionedd. Lle bo asesiad yn anghywir, mae'r sbardun adolygu'n caniatáu i'r wybodaeth gael ei

newid lle bo angen.  Mae'n sicrhau bod pawb yn cael eu hasesu'n deg.

Mae'r polisi'n cyfeirio at y ddyletswydd ddigartrefedd statudol a lle bydd yn peidio â bodoli, lle mae person digartref yn gwrthod eiddo. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa lle mae person yn gwrthod eiddo ac nid yw'n gadael y llety dros dro. Mae'n rhaid darllen a dehongli'r polisi yn unol â'r gyfraith, felly darperir ar gyfer hyn gan y cymal o fewn y polisi ac mae'n caniatáu ar gyfer newidiadau i amgylchiadau e.e. ymateb i COVID-19.

Gweithiwr trawsffiniol yw person sy'n gweithio mewn un aelod-wladwriaeth ond sy'n teithio i wlad arall yn rheolaidd i weithio. Hyd yn hyn, cadarnhaodd swyddogion nad ydynt wedi dod ar draws ymgeisydd trawsffiniol. Cytunodd swyddogion i siarad â chynghorwyr cyfreithiol i benderfynu a ellir aralleirio'r adran sy'n ymwneud â gweithwyr trawsffiniol fel bod yr hyn y mae’r polisi’n ymwneud ag ef yn glir.

Gofynnodd aelodau ynghylch y siartiau sy'n ymwneud â dyrannu ystafelloedd gwely o fewn y polisi. Mae gan y ddau siart a gyflwynwyd ystyron gwahanol. Mae'r siart safon ystafell wely'n pennu a yw'r eiddo'n orlawn neu beidio. Mae'r siart hwn yn ymwneud â rheolau'r Llywodraeth. Mae siart dau yn edrych ar ble y gellir lletya ymgeisydd. Y gyntaf yw’r elfen asesu a'r ail yw’r elfen ddyrannu.

Mynegodd aelodau eu pryder y bydd y polisi'n cael effaith fawr ar ardaloedd y cymoedd. Nododd swyddogion y cymal sy'n ymwneud â disgresiwn swyddogion, fel nad ydynt wedi'u cyfyngu’n llym gan y system ddyrannu.

Ar ddechrau'r adroddiad amlinellwyd bod yr hawliau gweinyddol wedi'u trosglwyddo i Tai Tarian. Roedd aelodau'n bryderus bod hyn yn trosglwyddo gormod o reolaeth i Tai Tarian. Cadarnhaodd Swyddogion CNPT fod y trefniad yn gweithio'n dda i CNPT a Tai Tarian gan ddarparu'r un nodau a pholisïau.

Diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am eu hymroddiad ac amser wrth graffu ar y ddogfen.

**CADEIRYDD**